

Ei enw bedydd oedd John Thomas Jones, mab i Thomas a Mary Jones (1852/1938), Tan y Greigwen, Mynytho, Sir Gaernarfon. Ganwyd ef 14 Mawrth 1861. Yn ystod ei arhosiad yng Nghymru, bu'n dilyn ei alwedigaeth fel saer maen, a threuliodd rai blynyddoedd yn gweithio yn y De.

Mai 12 1889, cychwynnodd o Bontypridd am Lerpwl, gan hwylio oddi yno ar y 13eg ar fwrdd y CITY OF NEW YORK - llong newydd, oedd ar ei hail fordaith dros yr Iwerydd. Yn cyd-deithio gydag ef oedd William Thomas o Garnfadryn a G.E. Williams o Daerdy, Botwnnog. Daeth ef i gyfarfyddiad â'r Parch. John R. Williams, gweinidog Eglwys Rhydbach (M.C.), Botwnnog, a oedd yn ymweld â'r talaethau gorllewinol ar daith bregethu. Cyrhaeddont Efrog Newydd, Mai 21ain ar ôl modrdaith gysurus. Lletyodd y noson gyntaf yn nhŷ gŵr o'r enw Enoch Evans. Treuliodd y dydd canlynol yn edrych ar ryfeddodau Dinas Efrog Newydd.

Aros gyda Chymry am ddwy flynedd

Am ddeg o'r gloch y nos, Mai 22ain, gadawodd Efrog Newydd, am Chicago gan gyrraedd yno ymhen deuddydd. Hyd y gywddai, nid oedd yn adnabod neb yn y ddinas honno, ond yn ddamweiniol ac yn hollol annisgwyl, cyfarfu â dau Gymro, ac un Gymraes, yn yr orsaf rheilffordd. Mr. Pritchard gŵr o Bwllheli oedd un o'r dynion, a Mr. Beynon o Feirionnydd oedd y llall, a Miss Janes Williams, Plas Crwth, Mynytho oedd y foneddiges. Arweiniodd y rhai hynny ef i dŷ y Parch. Owen Jones a'i briod ar Stryd Aberdeen. Gwnaeth ei gartref gyda'r teulu hwnnw am y ddwy flynedd gyntaf y bu'n byw yn Chicago. Yr oedd tua deg o fyfyrwyr yn cartrefu yno, pob un ohonynt yn Gymry: T.Roberts (Tenorydd Machno), y Parch. H.O.Morris, y Parch.D.H.Jones (Dafydd Huw), Hugh Jones, Oak Park, Chicago; William Williams o Ddolgellau; D.Conway o Benmaenmawr; a'r ddau gydymaith i J.T.Jones, sef William Thomas a G.E.Williams.

Yn nechrau haf 1890, dechreuodd ganlyn merch ifanc, Elizabeth Jones, a anwyd ym Methesda, Sir Gaernarfon ar Ionawr 12 1867. Merch ydoedd i Dafydd ac Ellen Jones, Victoria Place. Roedd hi yn un o chwech o chwirydd a phedwar brawd. Bu un chwaer a thri brawd farw o'i blaen. Priodwyd John T. Jones ac Elizabeth Jones ar 15 Ionawr 1891 yn Eglwys Glanogwen, Bethesda gyda'r Parch. T.Morgans, person yr Eglwys honno, a'r curad, yn gwasanaethu. Chwareuwyd yr Ymdeithgan Briodasol gan John Roberts yr organydd. Ganwyd iddynt bump o blant: Blodwen, Arthur



John T. Jones (John Chicago)
1861-1945

Llywelyn (a fu farw yn dair wythnos oed), Alun, Harold a Gladys. Bu Elizabeth farw Ebrill 1 1913 yn sydyn ac yn annisgwyl iawn, gan adael dwy chwaer yn yr Amerig, sef Mrs. Pritchard, Kansas a Mrs R.Kent Thomas, Chicago, a dwy chwaer a brawd yng Nghymru.

Treuliodd John T. Jones ei oes yn byw yn 1522 North Central Park Avenue, a'r blynddoedd olaf ar aelwyd ei ferch Blodwen yn rhif 1418 o'r un stryd yn Chicago. Bu'n fforman ar amryw o brif adeiladau Chicago a'r cylch cyfagos.

Yr oedd yn llenor gwych ac yn gerddor medrus. Cyfansoddodd donau fel *Tancreigwen*, *Sant Tudwal a Chastell Newydd*, ac un gân *Hen Gymru Fendigdig*. Canwyd y gân honno yn Eisteddfod Ffair Fawr y Byd yn Chicago yn 1893 gan yr Athro D. Gordon Thomas, ac yn ddiweddarach gan gantores Mrs. Annie Hope Jones, a chan amryw eraill llai enwog. Yn Chicago y cyhoeddwyd y cytgan i blant, '*Hosanna*', ar y dôn gynulleidfaol *Tancreigwen*, a ymddangosodd yn rhif 2 o 'Donau ac Emynau' Mr.R.H.Meredith, Chicago.

Yr oedd hefyd yn fardd swynol. Enillodd lawer o wobrwon ar amryw o draethodau yng ngwyliau llenyddol yr Amerig, gan gynnwys ei draethawd ar '*A bara yr iaith Gymraeg i fod yn iaith lafaredig?*'.

Breintiwyd ef â doniau gŵr

cyhoeddus. Meddai alluoedd cynhenid ymhell uwchlaw y cyffredin, ac yr oedd wedi meithrin y galluoedd rheini er pan oedd ef yn ifanc. Yr oedd ffrwyth y driniaeth honno i'w gweld yn amlwg yn ei ysgrifau diddorol, yn *Y Cenhadwr*, *Yr Ymdrechydd*, *Y Lamp*, *Y Cronicl*, *Y Wasg* a'r *Columbia*.

Ond mae'n debyg mai drwy ei gysylltiad â'r *Drych* y daeth i amlygrwydd yn bennaf. Cyhoeddodd ei ysgrif gyntaf i'r papur hwnnw yn yr Hydref 1889 a daliodd i anfon ysgrif am hanner can mlynedd a rhagor yn wythnosol ar ôl hynny. Yn eu mysg yr oedd darnau cerddorol a barddonol a gyfansoddwyd ganddo yn ei barabliad parod a diddarpar ar gyfer unrhyw achlysur. Yn Ebrill 1924 ymgymerodd â'r gwaith o fod yn oruchwyliwr i'r *Drych* yn Chicago. Amcangyfrifir iddo anfon 780 o ysgrifau i'r papur hwnnw yn cynnwys oddeutu 390,000 o eiriau mewn ystod o hanner can mlynedd.

Cafodd Eglwys Gymraeg Humbolt Park, Chicago ei orau fel blaenor am dros hanner can mlynedd. Cefnogodd bob sefydliad Cymraeg teilwng yn ei ddinas. Yr oedd yn aelod o'r Iforiaid Americanaidd ac o Urdd y Seiri Rhyddion. Ymwelodd â Chymru droeon yn ystod y cyfnod y bu ef yn byw yn yr Amerig, gan gynnwys yn ymweliad yn 1921. Loes drom iddo oedd colli ei ferch, Blodwen, (Mrs. William Parry) ym mis Hydref 1942, yr hon a ymgartrefai gydag ef yn 1418 North Central Park Avenue. Bu yntau farw yn gynnwys yn 1945 ac fe'i claddwyd ef ym Mynwent Forest Home, yn Chicago.



John T. Jones o flaen tŷ ei ferch yn Chicago.